The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Coronafeirws (COVID-19) – Diweddariad gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru 15 Medi 2020

Yn dilyn ein diweddariad diwethaf, mae ymweliadau â safleoedd heb gwmni yn parhau, ynghyd ag ymweliadau â safleoedd lle mae angen mynediad a lle gellir mynd i safle gydag awdurdodiad gan y tirfeddiannwr heb fod unrhyw barti arall yn bresennol. Er mwyn diogelu iechyd a diogelwch ein Harolygwyr, mae'r pellter sy'n cael ei deithio i safle apêl yn parhau i gael ei gadw i'r lleiafswm. Byddwn yn cysylltu â phartïon cyn y cynhelir ymweliad â safle er mwyn cael awdurdodiad i'n Harolygydd fynd i mewn i safle, yn ôl yr angen.

Nid oes unrhyw wrandawiadau nac ymchwiliadau yn cael eu trefnu ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i archwilio sut y gallwn gynnal digwyddiadau digidol, a gobeithiwn roi'r newyddion diweddaraf yn hyn o beth, maes o law.

Er bod y pandemig Covid-19 yn parhau i achosi anawsterau i ni i gyd, mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth apeliadau mor gyflawn â phosibl. I'r perwyl hwn, rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod aelodau cyfyngedig o staff yn gallu cael mynediad i'n swyddfeydd yng Nghaerdydd i brosesu'r tasgau hynny na allwn eu gwneud gartref. Felly, anogwn ein holl randdeiliaid a chwsmeriaid yng Nghymru i barhau i gyflwyno apeliadau a chynrychiolaethau i ni drwy'r post, drwy'r e-bost neu drwy'r Porth Gwaith Achos Apeliadau.

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

cymru@planninginspectorate.gov.uk

https://acp.planninginspectorate.gov.uk/

Gellir cysylltu â staff Arolygiaeth Gynllunio Cymru o hyd trwy eu llinellau uniongyrchol neu ein llinell ymholiadau cyffredinol; 0303 444 5940.ymlaen ag achosion cymaint ag y bo modd ac yn gweithio gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol, Apelyddion ac Asiantau i ddod o hyd i ddatrysiadau er mwyn sicrhau bod gwaith yn mynd yn ei flaen. Dyrannwyd un o dair ffordd benodol o weithio i bob ACLl. Mae'r statws presennol wedi'i nodi isod.

ABERTAWE	Yn dechrau apeliadau newydd ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI	Yn dechrau apeliadau newydd ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
BRO MORGANNWG	Yn dechrau apeliadau newydd ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
CAERDYDD	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
CAERFFILI	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
CASNEWYDD	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
CASTELL-NEDD PORT TALBOT	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
CEREDIGION	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
CONWY	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
GWYNEDD	Yn dechrau 1 apêl newydd bob wythnos
MERTHYR TUDFUL	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
PEN-Y-BONT AR OGWR	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
POWYS	Yn dechrau 1 apêl newydd bob wythnos
RHONDDA CYNON TAF	Yn dechrau apeliadau newydd ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
SIR GÂR	Yn dechrau 1 apêl newydd bob wythnos
SIR FYNWY	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
SIR PENFRO	Yn dechrau apeliadau newydd ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
SIR Y FFLINT	Yn dechrau apeliadau newydd ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
TORFAEN	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer
WRECSAM	Yn dechrau 1 apêl newydd bob wythnos
YNYS MÔN	Yn dechrau apeliadau ac yn parhau i'r cam digwyddiad yn ôl yr arfer